O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif. 1233 (Cy. 149)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ffordd Osgoi'r Wyddgrug , Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2012

Gwnaed *4 Mai 2012*

Yn dod i rym *16 Mai 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mai 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys, neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 16 Mai 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o brif gerbytffordd y gefnffordd, o'r enw Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, yn Sir y Fflint, sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan New Brighton i gyfeiriad y de i bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan yr Wylfa;